


E. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r strategaeth newydd, gyda'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu hefyd wedi'i gynnwys yn un o 7 nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym rwymedigaeth statudol hefyd i ystyried effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg yn llawn. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi sydd gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisiau yn effeithio ar yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

Mae i strategaeth *Cymraeg 2050* dair thema, sef:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwmpas gweithgareddau a all effeithio ar yr iaith.

Fel rheol, pe gallai eich polisi effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac, felly, ar y Gymraeg.

1. Rhif cyfeirnod Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@gov.wales):

06/02/2021

2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Daeth safonau iaith ar gyfer awdurdodau lleol (ac, felly, eu swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol) i rym ar 30 Mawrth 2016 a daeth safonau ar gyfer y sector iechyd i rym ar 30 Mai 2019. Mae'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddatblygu sgiliau Cymraeg eu staff, darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ac asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi.

Mae'r Cod Ymarfer a'r canllawiau ategol yn atgyfnerthu gofynion safonau'r Gymraeg drwy nodi y dylai byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg awtistig heb iddynt orfod gofyn amdanynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (*Mwy na geiriau*)

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=en>.

Mae Mwy na geiriau yn datgan bod iaith yn angen ac, wrth nodi manylion yr hyn sydd ei angen mewn asesiad, caiff y gofynion o ran nodi anghenion iaith eu nodi yn y Rheoliadau.

Yn y fframwaith, cydnabyddir bod derbyn gwasanaethau Cymraeg yn angen ac yn anghenraid clinigol ar gyfer pobl mewn grwpiau penodol, gan gynnwys y rhai ag anabledau dysgu ac awtistiaeth. Mae angen i ymarferwyr gydnabod ei bod yn bosibl bod rhai plant ond yn siarad Cymraeg ac y bydd hyn yn effeithio ar ganlyniadau asesiadau a gynhelir drwy gyfrwng y Saesneg – mae'r fframwaith yn cynnwys camau y mae'n rhaid eu cymryd mewn meysydd perthnasol er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu yn Gymraeg i'r rhai sydd am eu cael a heb fod angen iddynt ofyn amdanynt.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol yn eich ateb i'r cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg¹ (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Ni fydd y polisi yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth, gwasanaethau a chymorth dwyieithog ar gael i unigolion ag awtistiaeth sy'n cyfathrebu yn Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Bydd Safonau'r Gymraeg yn gymwys mewn perthynas â darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylai'r polisi effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, nifer y siaradwyr Cymraeg na chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg.

♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Nid yw hyn yn rhan o gylch gwaith y Cod Ymarfer. Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn diogelu hawl dysgwyr i gael cynnig a derbyn eu darpariaeth ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ni ddylai'r polisi arfaethedig effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau² sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafniadaeth, tai, digidol, ieuenctid, amgylcheddol, llywodraeth leol ac ati)**

Bydd y Cod yn sicrhau bod gwybodaeth, gwasanaethau a chymorth dwyieithog ar gael i unigolion ag awtistiaeth sy'n cyfathrebu yn Gymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mae'r holl ddeunyddiau ac adnoddau ar gael yn ddwyieithog a byddant yn parhau felly.

Drwy'r Cod, wrth gyfeirio at wybodaeth, asesiadau a chymorth, dylai'r rhain fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar gais. Rhaid i'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth yn Gymraeg. Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i ymarferwyr fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol ac y dylid gofyn i'r unigolyn awtistig nodi ei ddewis iaith neu ddull cyfathrebu ar ddechrau'r broses. Fodd bynnag, bydd argaeledd asesiadau, diagnosis a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg yn dibynnu ar sgiliau'r gweithwyr proffesiynol sy'n gwneud y gwaith hwn a sgiliau'r gweithlu.

Mae effeithiau cadarnhaol y Cod ar y Gymraeg yn cynnwys hyfforddiant, adnoddau a deunyddiau yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Mae'n debygol na fydd unrhyw effaith negyddol ar yr iaith am fod y cod wedi'i lunio i greu system decach i bawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth ac mae cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau yn cael eu nodi'n glir.

¹ Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clòs, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac mewn cymunedau rhithwir sy'n ymestyn ar draws mannau daearyddol.

²Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

- ♦ **Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac y gallant gael gafael arnynt a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant ei wneud yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd gennych i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?**

Mae'r Cod Ymarfer yn pwysleisio bod yn rhaid i unrhyw wybodaeth fod yn hygyrch i bobl awtistig ag anghenion ychwanegol megis anabledau corfforol/synhwyrdd neu anabledau dysgu.

Mae'r Cod yn sicrhau y dylai pobl awtistig a'u teulu neu eu gofalwyr gael eu cyfeirio i gymorth perthnasol a rhagor o wybodaeth ac yn nodi, lle y bo'n briodol, fod yn rhaid i wasanaethau roi gwybod i unigolion ble y gallant gael gofal a chymorth pellach. Rhaid i bob gwasanaeth, yn enwedig timau cyswllt cyntaf, megis y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, wybod sut i gyfeirio pobl awtistig i sefydliadau arbenigol i'w helpu i gael cymorth. Rhaid i wybodaeth fod yn addas i'r gynulleidfa fwriadedig er mwyn i bobl allu deall sut i gael cymorth a chyngor a sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, gan gynnwys ieithoedd eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a phrif nod ei waith yw sicrhau y gall pobl ag awtistiaeth yng Nghymru a'u gofalwyr a'u teuluoedd gael gwybodaeth, gwasanaethau a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion yn ddwyieithog. Mae wedi sefydlu presenoldeb ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac, yn ddiweddar, ail-ddyluniodd ei wefan er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch i bob person awtistig. Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn cofnodi ymweliadau â'i wefan, a all ddangos pa wybodaeth y gofynnwyd amdani ac ym mha iaith.

Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn ddwyieithog ac mae'r holl adnoddau ar gael yn ddwyieithog.

Fel y disgrifir isod, ceisiwyd tystiolaeth yng nghyd-destun yr ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer.

- ♦ **Pa dystiolaeth arall a fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i wrando ar bobl awtistig drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw mewn digwyddiadau a chyfarfodydd ledled Cymru. Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Cod Ymarfer, cynhaliwyd digwyddiadau i grwpiau technegol a rhanddeiliaid ledled Cymru er mwyn rhoi cyfleoedd i amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys pobl awtistig, leisio eu barn ar y blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y Cod.

Roedd ein digwyddiadau ymgysylltu yn gyfle gwych i ymgysylltu'n uniongyrchol â theuluoedd a rhieni ac unigolion awtistig yn ogystal ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig a'r sector addysg. Yn y

digwyddiadau hyn, gwnaethom drafod eu profiadau a cheisio eu barn ynglŷn â ble y dylai gwelliannau i wasanaethau gael eu cyflawni.

O ganlyniad i'r digwyddiadau hyn, ystyriwyd sut y caiff gwasanaethau awtistiaeth eu darparu gan roi sylw i boblogaeth, diwylliant ac iaith a gan gyfeirio'n benodol at y Gymraeg yn yr asesiadau o anghenion y boblogaeth a gynhelir gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer, gwnaethom ofyn am farn pobl ar yr effeithiau y byddai'r Cod yn eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd ein cwestiynau hefyd yn holi am yr effeithiau y byddai'r Cod yn eu cael ar y Gymraeg ac a fyddai'n cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

O'r 56 o bobl a ymatebodd ar-lein i'r ymgynghoriad, ymatebodd cyfanswm o 29 o bobl i naill ai un o'r cwestiynau neu'r ddau gwestiwn am y Gymraeg. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r cwestiynau hyn yn Gymraeg.

Derbyniwyd 48 o ymatebion drwy e-bost, gyda 4 o ymatebion yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg.

Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad y canlynol:

- Bydd delio ag unigolion yn eu dewis iaith yn gwella eu profiad. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth gael ei rhannu mewn iaith gyffredin y gall pob unigolyn sy'n gofalu am y claf neu, a allai fod yn gofalu amdano, ei darllen.
- Rhaid i bob gwasanaeth, ac yn arbennig asesiadau o anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru gyfan. Os na fydd hyn yn bosibl, bydd yn cael effaith negyddol a gwahaniaethol ar unigolion a'u teuluoedd – plant ac oedolion.
- Dylid darparu pob gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg o wasanaethau Seiciatrïg a Seicolegol, Therapi Lleferydd ac Iaith a Therapi Galwedigaethol ac ati i weithwyr cymorth unigol neu bydd effaith negyddol ar brofiad siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.
- Pwysleisiodd llawer o'r sylwadau y dylai gwasanaethau y cyfeirir unigolion iddynt drwy'r Cod fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Nododd ymatebwyr y dylai pob unigolyn awtistig allu cyfathrebu, er enghraifft, mewn asesiad drwy ei ddull cyfathrebu cyntaf a'r un y mae fwyaf cyfforddus yn ei ddefnyddio, boed hynny yn Gymraeg neu mewn iaith arwyddion.

Ymdrinnir â phob un o'r sylwadau a gafwyd ar hyn o bryd yn y Cod Ymarfer, ac mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Drwy'r Cod, wrth gyfeirio at wybodaeth, asesiadau a chymorth, dylai'r rhain gael eu cynnig yn Gymraeg a Saesneg. Rhaid i'r awdurdod lleol, y bwrdd

iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth yn Gymraeg.

- Rydym wedi cyfeirio'n gliriach yn y Cod at bwysigrwydd y Gymraeg mewn asesiadau.
- Mae'r Cod yn cydnabod ei bod yn hollbwysig bod pobl awtistig yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio, yn enwedig am fod cyfathrebu yn rhan mor ganolog o'r broses o ddarparu gwasanaethau a chynnal asesiadau effeithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael diagnosis cywir a gwasanaeth wedi'i deilwra o'r ansawdd uchaf.
- Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn ei Fframwaith Strategol, *Mwy na geiriau*, yw y bydd siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaethau iechyd sy'n diwallu eu hanghenion fel rhan naturiol o'u gofal, gyda mwy o bwyslais ar gynnig gwasanaethau Cymraeg mewn ffordd ragweithiol.
- Bydd ymarferwyr yn cynnig gwybodaeth (mewn fformat ac iaith briodol) i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn a'r teulu neu'r gofalwr sy'n esbonio'r broses atgyfeirio ac nad yw bob amser yn golygu y gwneir diagnosis o awtistiaeth.
- Rhaid i ymarferwyr fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol a dylid gofyn i'r unigolyn awtistig nodi ei ddewis iaith neu ddull cyfathrebu ar ddechrau'r broses.

- **Sut y byddwch yn gwybod bod eich polisi wedi llwyddo?**

Caiff y Cod Ymarfer ei werthuso o fewn dwy flynedd i gyhoeddi'r Cod. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i wybod p'un a yw'r polisi wedi llwyddo ai peidio o ran y Gymraeg.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar gapasiti gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r galw amdanynt. Nod y gwaith hwn yw datblygu argymhellion ac opsiynau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwella gwasanaethau. Bydd hefyd yn edrych ar ddarpariaeth Gymraeg.